**AGENDA. 3**

**ADRODDIAD:** **PANEL PENODIADAU ARBENNIG**

**DYDD:** **18 MEHEFIN 2002**

**PWNC:** **PANEL YMGYNGHOROL PWYLLGOR SAFONAU**

**ADRODDIAD GAN:** **CLERC Y SIR**

## 1. PENDERFYNIAD

Penodi panel o5 Aelod Ymgynghorol i ystyried ceisiadau am swyddi gwag i Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

## 2. RHESWM

Bydd Aelodau'n cofio o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2000 sydd wedi sefydlu Pwyllgor Safonau, bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud rheoliadau (Standards Committee (Wales) regulations) 2001 sy'n gosod allan drefn sefydlu Pwyllgorau Safonau .

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys 5 aelod, sef 3 Aelod Annibynnol, 1 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Tref / Cymuned.

Yn ôl y rheoliadau hysbysebwyd am ymgeiswyr i'r 3 sedd Aelodau Annibynnol. Mae'r rheoliadau yn gofyn am ystyried y ceisiadau hyn gan banel ymgynghorol a phenderfynodd y Cyngor Sir y dylai'r panel gynnwys 3 Cynghorydd Sir, 1 Cynghorydd tref / cymuned ac un Aelod lleyg, i'w penodi gan y Panel Penodiadau Arbennig. Bydd y panel Ymgynghorol yn ystyried pob cais a dderbyniwyd, dilyn meini prawf penodi a drefnwyd gan y Cyngor ac yna yn gwneud argymhelliad i'ch Pwyllgor fydd yn ei dro yn gwneud y penodiadau.

Wrth benodi Panel Ymgynghorol bydd Aelodau angen ystyried na fydd y rhai a benodir i'r panel yn gallu eistedd ar y Pwyllgor Safonau. Ni all Aelodau Annibynnol y panel a elwir yn Aelodau lleyg fod nac wedi bod yn Aelodau, Aelodau cydetholedig neu swyddogion neu briod Aelodau neu swyddogion o naill ai Cyngor Sir Ddinbych neu Gynghorau Tref/ Cymuned o fewn ardal y Sir.

## 3. COST

Bydd costau teithio gan Aelodau o'r Panel Ymgynghorol .

## 4. DATGANIAD ARIANNOL

Rhagwelir y bydd y costau yn isel ac yn dod o gyllideb Aelodau.

## 5. YMGYNGHORIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yn rhan o ddeddfwriaeth moderneiddio'r Llywodraeth a fu'n bwnc ymgynghoriad eang a chafwyd cynrychiolaeth Llywodraeth Leol ar weithgorau moderneiddio'r Cynulliad Cenedlaethol, yn benodol gweithgor etheg. Rydym wedi ymgynghori hefo Cynghorau tref a chymuned ac mae Cymdeithas Cynghorau Lleol Sir Ddinbych yn gwahodd y Cyngor i benodi eu Cadeirydd sef Mr E Emrys Williams fel cynrychiolydd tref / Cymuned ar y panel Ymgynghorol.

**6 POLISI**

Mae sefydlu Pwyllgor safonau yn ofyniad statudol .

**7. ARGYMHELLIAD**

Argymhellir bod Aelodau yn penodi panel Ymgynghorol sy'n cynnwys tri Cynghorydd Sir, un Cynghorydd tref / cymuned ac un Aelod lleyg .